**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**

5 Tachwedd 2024

**RHAN 1**

## 1.0 Disgrifiad

1.1 Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (‘y Ddeddf’) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i sicrhau bod strwythurau ac adnoddau priodol wedi eu sefydlu i alluogi darparu gwasanaethau gofal a chymorth integredig. Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 (‘y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth’) yn darparu ar gyfer sefydlu saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol (‘BPRh’) ar batrwm y byrddau iechyd ac yn nodi gofynion ar gyfer y byrddau hynny.

1.2 Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) 2024 (‘y Rheoliadau’) yn diwygio’r darnau canlynol o ddeddfwriaeth:

- y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 (‘y Rheoliadau Cynllunio Ardal’)
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021 (‘y Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad’).

1.3 Mae’r diwygiadau i’r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn canolbwyntio ar amcanion, aelodau a threfniadau gweinyddol y BPRhau. Mae’r diwygiadau i’r Rheoliadau Cynllunio Ardal yn ymwneud â monitro a gwerthuso’r cynnydd a wneir wrth gyflawni cynlluniau ardal. Mae diwygiad bach hefyd yn cael ei wneud i’r Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad, i newid y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi adroddiadau yn y dyfodol.

## 2.0 Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Yn rheoliad 4(2) o’r Rheoliadau (sy’n diwygio rheoliad 10 o’r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth) rydym wedi defnyddio’r gair “hyrwyddo” yn nhestun Cymraeg paragraffau (v) a (vi) (a fewnosodir yn rheoliad 10). Rydym yn tynnu sylw’r Pwyllgor at hyn gan fod adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (y bydd rheoliad newydd 10(v) yn cyfeirio ati) yn defnyddio “hybu”. Nid oes bwriad i newid natur dyletswydd awdurdodau lleol o dan adran 12 o Fesur 2010 o ganlyniad i’r dewis o “hyrwyddo” yn lle “hybu”; dewiswyd y cyntaf i gynnal cysondeb mewnol o fewn y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth ac i adlewyrchu defnydd mwy cyfredol.

## 3.0 Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae’r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn rhinwedd pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan

adrannau 14A(7)(a), (b) a (d), 144B(1), 166(1)(b) a (2)(a)(ii), 168(2)(a), (c), (d) ac (e), a 196(2)(c) o'r Ddeddf.

**4.0 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Diben y Rheoliadau yw ehangu a chryfhau rôl y partneriaethau rhanbarthol o dan Ran 9 o'r Ddeddf, ac ehangu a chryfhau rôl y saith BPRh.

4.2 Mae'r Rheoliadau yn cael eu diwygio yn rhan o Raglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru, yn sgil ymgynghori ar Bapur Gwyn ym mis Ionawr 2021. Nodwyd elfennau'r rhaglen mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 29 Hydref 2021: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-papur-gwyn-ar-ailgydbwyso-gofal-chymorth-y-camau-nesaf

4.3 Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth i ehangu amcanion BPRhau, cynyddu nifer yr aelodau o'r BPRhau, a gwneud darpariaeth i BPRhau fod ag aelodau sy'n sylwedyddion annibynnol. Maent hefyd yn gwneud diwygiadau er mwyn gwella trefniadau gweinyddol BPRhau, gan gynnwys gofyniad i fwrdd ymgymryd â hunanasesiadau cyfnodol o'i berfformiad, a chynyddu'r ystod o wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn ei adroddiad blynyddol.

4.4 Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r Rheoliadau Cynllunio Ardal i gynyddu'r gofynion ar gyfer monitro a gwerthuso'r cynnydd a wneir gan y cyrff partneriaeth wrth gyflawni gweithredoedd yn eu cynlluniau ardal.

4.5 Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad i newid y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn y dyfodol.

4.6 Yn ddarostyngedig i gytundeb y Senedd, mae disgwyl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar 31 Rhagfyr 2024.

Mae'r effaith y bwriedir i bob un o'r Rheoliadau ei chael wedi ei nodi'n llawnach o dan Opsiwn 3 isod.

**5.0 Ymgynghori**

5.1 Mae'r cynigion wedi bod yn destun dau ymgynghoriad. Roedd yr ymgynghoriad cyntaf, rhwng 22 Mai a 14 Awst 2023, yn ymdrin ag elfennau amrywiol o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, gan gynnwys cynigion ar gyfer diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth a'r Rheoliadau Cynllunio Ardal (h.y. yn nodi ein bwriad i wneud rheoliadau diwygio). Roedd yr ail ymgynghoriad, rhwng 16 Ebrill a 19 Gorffennaf 2024, yn edrych yn benodol ar set ddrafft o'r Rheoliadau.

5.2 Mae’r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o’r ymatebion ar gael yn: https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-ailgydbwyso-gofal-chymorth

5.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf, lluniwyd cyfarwyddiadau polisi ar fersiwn ddrafft o’r Rheoliadau, a gyflwynwyd wedyn ar gyfer ymgynghori pellach ym mis Ebrill 2024. Yr un ychwanegiad sylweddol at y Rheoliadau drafft oedd ychwanegu gofyniad i bob BPRh gynnwys o leiaf un cynrychiolydd ar gyfer llais gweithwyr ymhlith ei aelodau, a hynny mewn ymateb i alwadau gan nifer o undebau llafur a chyrff proffesiynol.

5.4 Roedd yr ymatebion i’r ail ymgynghoriad hwn yn dangos bod y cynigion ynghylch y canlynol yn cael eu derbyn yn gyffredinol:

- amcanion newydd mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, gweithio gyda Llais, a hyrwyddo datblygiad trefniadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig
- ychwanegu Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a darparwyr gofal sylfaenol yn aelodau
- creu categori newydd, sef aelod sy’n sylwedydd annibynnol a’i gwneud yn ofynnol i BPRhau benodi Llais yn aelod annibynnol
- ei gwneud yn ofynnol i’r cyrff partneriaeth enwebu person cyfrifol i hwyluso’r trefniadau partneriaeth
- trefniadau gweinyddol ynghylch recriwtio a chymorth i aelodau
- hunanasesiadau bob dwy flynedd
- adroddiadau blynyddol
- cynlluniau cyflawni blynyddol ac adolygiadau blynyddol
- dyddiad cyflwyno adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn y dyfodol.

5.5 Yn eu hymatebion i’r ymgynghoriad, fodd bynnag, mynegodd y BPRhau amheuon ynghylch amcanion ychwanegol yn ymwneud ag adran 16 o’r Ddeddf ac adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Y pryder oedd y byddai’r amcanion newydd yn golygu y byddai BPRhau yn monitro awdurdodau lleol unigol o ran cyflawni’r dyletswyddau a gynhwysir yn yr adrannau hyn. Mewn ymateb, gwnaethom ddiwygio geiriad y ddau amcan hyn i’w gwneud yn glir mai’r bwriad oedd i’r BPRhau fod â throsolwg strategol o’r ffordd yr oedd y cyrff partneriaeth yn hyrwyddo ailgydbwyso’r farchnad a chyfranogiad plant wrth arfer y trefniadau partneriaeth.

5.6 Codwyd rhai ymholiadau mewn perthynas â sicrhau ymgysylltiad a chynrychiolaeth effeithiol o ran llais gweithwyr ar BPRhau. Trafodir y mater hwn ymhellach isod.

5.7 Yn dilyn yr ail ymgynghoriad, gwnaethom rai mân ddiwygiadau i’r Rheoliadau drafft.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6.0 Yr opsiynau

6.1 Nodwyd tri opsiwn ar gyfer cryfhau'r gofynion statudol mewn perthynas â'r trefniadau partneriaeth yn Rhan 9 o'r Ddeddf:

- **Opsiwn 1** – peidio â newid y gofynion statudol presennol ond gweithio gyda'r partneriaethau rhanbarthol a'r BPRhau i weithredu'r gofynion presennol mewn ffordd fwy integredig.
- **Opsiwn 2** – diwygio Canllawiau Statudol 2020 (Trefniadau Partneriaeth) yn sylweddol ond peidio â diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth.
- **Opsiwn 3** – diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (a setiau eraill o Reoliadau yn ôl yr angen), yn ogystal â diwygio Canllawiau Statudol 2020 (Trefniadau Partneriaeth) yn sylweddol – **yr opsiwn a ffefrir**.

6.2 Er mwyn ein helpu i ddewis y ffordd orau o gryfhau gwaith partneriaeth rhanbarthol, yn rhan o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, sefydlwyd pum Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Roedd y rhain yn ymdrin â Llywodraethu a Chraffu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaethau Integredig, Ymgysylltu a Llais, ac Ailgydbwyso'r Farchnad Gofal Cymdeithasol. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys rhanddeiliaid amrywiol ac fe'u defnyddiwyd i brofi'r graddau yr oedd angen diweddaru'r gofynion a'r canllawiau yn y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth a Chanllawiau Statudol Rhan 9. Gwnaeth hyn ein helpu i benderfynu ar y dull gweithredu a ffefrir.

### 7.0 Costau a manteision

<u>Opsiwn 1: Peidio â newid y gofynion statudol presennol</u>

7.1 Mae gwneud newidiadau i'r fframwaith statudol ar gyfer partneriaethau rhanbarthol yn golygu cryn amser ac ymdrech i lunio polisi a deddfwriaeth yn Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae angen mewnbwn sylweddol gan y cyrff partneriaeth a rhanddeiliaid eraill i helpu i ddatblygu cynigion, ymateb i ymgyngoriadau, a gweithredu'r newidiadau ar ôl eu gwneud. Mae'n dal i fod yn llai na deng mlynedd ers gweithredu'r Ddeddf (yn 2016), a dim ond pedair blynedd ers dyroddi'r ail fersiwn o Ganllawiau Statudol Rhan 9. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r cyrff partneriaeth a'r BPRhau wedi dod yn bell o ran sefydlu a gweithredu'r trefniadau partneriaeth. Gellid dadlau dros roi lle i'r partneriaethau barhau i esblygu ac aeddfedu o fewn y fframwaith presennol, gan fod mor hyblyg â phosibl i ddatblygu dulliau newydd, a dulliau a allai fod yn arloesol, ar gyfer gwaith partneriaeth. Gallai'r dulliau hynny adlewyrchu'r cyd-destun rhanbarthol ac ymateb i flaenoriaethau rhanbarthol a lleol. Byddai gan Lywodraeth Cymru rôl o hyd o ran helpu i nodi a hyrwyddo arferion da a gallai ddefnyddio mecanweithiau eraill megis cyfundrefnau cyllido penodol (er

enghraifft, y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol) i gyflawni canlyniadau polisi penodol ynghylch integreiddio rhanbarthol. Gellid ystyried y rhain i gyd yn **fanteision** posibl o gynnal y *status quo*. Gellid dadlau bod yr egwyddorion a'r gofynion yn y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol presennol yn cael eu derbyn a'u deall yn eang, a'r hyn sy'n allweddol yw gweithredu'n well yn hytrach na newid deddfwriaethol pellach. Mae'n bosibl hefyd i Lywodraeth Cymru ddyroddi canllawiau atodol ychwanegol pan fo angen i fynd i'r afael â materion penodol neu adlewyrchu'r cyd-destun polisi wrth iddo ddatblygu, fel y rhai a ddyroddwyd i gefnogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd wrth iddynt lunio'r asesiadau rhanbarthol o anghenion y boblogaeth a'r cynlluniau blynyddol ar y cyd.

7.2 Serch hynny, mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar y syniad bod y partneriaethau rhanbarthol yn aeddfedu'n ddigon cyflym, a bod dulliau presennol o weithio mewn partneriaeth yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig sy'n cyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion. Yn y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth (2021), trafodwyd tystiolaeth a oedd yn awgrymu nad oedd y dulliau rhanbarthol presennol o integreiddio yn cyflawni'r newid mawr sydd ei angen i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol, a bod 'bwlch gweithredu' o hyd rhwng dyheadau'r Ddeddf a'r gwirionedd ar lawr gwlad. Er i Weinidogion Cymru, yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, benderfynu peidio â dilyn yr opsiwn radical o sefydlu BPRhau yn gyrff corfforedig â phersonoliaeth gyfreithiol yn eu rhinwedd eu hunain, gwnaethant dderbyn y ddadl dros gryfhau'r trefniadau presennol lle bo angen i wella rôl strategol BPRhau o ran goruchwylio'r gwaith o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau integredig yn eu rhanbarth. Roedd hyn hefyd yn cyd-fynd â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddeddfu ymhellach i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.

7.3 Ni fyddai unrhyw **gostau** ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, gan ei fod yn cynnal y *status quo* ac nad yw'n cyflwyno unrhyw ofynion newydd ar bartneriaid allanol.

<u>Opsiwn 2: Diwygio Canllawiau Statudol Rhan 9 yn unig</u>

7.4 **Manteision** diwygio Canllawiau Statudol Rhan 9 ymhellach yw y byddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â diffygion yn y trefniadau partneriaeth presennol a gweithredu newidiadau a awgrymwyd gan y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen amrywiol a sefydlwyd i'n helpu i ddatblygu'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Heb angen diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth, gellid cyflawni hyn yn gymharol gyflym ac ochr yn ochr ag elfennau eraill o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, megis datblygu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth a diweddaru Cod Ymarfer Rhan 2 (ni fyddai angen Rheoliadau newydd na Rheoliadau diwygio i wneud y pethau hyn).

7.5 Roedd y gwelliannau a awgrymwyd gan y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn canolbwyntio ar lywodraethu a chraffu o ran y trefniadau partneriaeth rhanbarthol, trefniadau cynllunio a pherfformiad, integreiddio gwasanaethau'n well, ac ymgysylltu a llais, yn enwedig mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr di-dâl a'r trydydd sector.

7.6 Y bwriad cychwynnol oedd delio â'r rhain drwy ddiwygio'r Canllawiau Statudol yn unig. Serch hynny, ar ôl cael cyngor gan Wasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru cyn yr ymgynghoriad ar y Rhaglen Ailgydbwyso yn 2023, daeth yn amlwg y byddai'r cwmpas ar gyfer gwneud newidiadau yn gyfyngedig iawn heb ddiwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth hefyd. Er y gallai newidiadau penodol, megis diweddaru'r cyd-destun polisi, cyflwyno diffiniad newydd o integreiddio, egluro trefniadau cynllunio ac adrodd, a nodi arferion da o ran cymorth i aelodau BPRhau (yn enwedig aelodau sy'n cynrychioli llais y dinesydd), gael eu hymgorffori mewn fersiwn wedi ei diweddaru o'r Canllawiau Statudol, byddai'n rhaid i hynny fod ar ffurf cyngor yn unig. Yr un newid sylweddol y gellid bod wedi ei gyflawni o dan yr Opsiwn yw cyflwyno hyblygrwydd newydd mewn perthynas â chyllidebau cyfun (gweler Opsiwn 3 isod). Byddai angen i unrhyw ofynion newydd (a fynegir fel 'rhaid') neu ganllawiau statudol (a fynegir fel 'dylai') fod yn seiliedig ar ddarpariaeth yn y Rheoliadau perthnasol (a byddai angen i'r rheini wedyn fod o fewn y pwerau i wneud rheoliadau sydd wedi eu cynnwys yn Rhan 9 o'r Ddeddf). Byddai hyn wedi rhwystro'n ddifrifol yr hyn y gellid ei fandadu – er enghraifft, ni fyddai wedi bod yn bosibl ehangu'r rhestr o amcanion BPRhau na nifer eu haelodau, ei gwneud yn ofynnol i BPRhau ymgymryd â hunanasesiadau na llunio cynlluniau cyflawni blynyddol, na hyd yn oed nodi canllawiau cadarn ar gyfer cefnogi aelodau BPRhau sy'n ddinasyddion. Hefyd, gan mai diben y Canllawiau Statudol a ddyroddir o dan adran 169 o'r Ddeddf yw nodi'n union y gofynion a'r canllawiau (yr hyn y mae rhaid i'r cyrff partneriaeth a'r BPRhau ei wneud, a'r hyn y dylent ei wneud), ni fyddai'n briodol ehangu'r Canllawiau yn sylweddol drwy ychwanegu arferion da anstatudol neu ddeunydd cyd-destunol.

7.7 Ni fyddai unrhyw gostau newydd yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Gan na fyddai'r newidiadau i'r Canllawiau Statudol fod wedi gallu cyflwyno unrhyw ofynion na chanllawiau newydd ('rhaid' neu 'dylai'), byddai'r effaith ar y cyrff partneriaeth a'r BPRhau o ran gweithredu wedi bod yn fach iawn.

Opsiwn 3: Diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth a diweddaru Canllawiau Statudol Rhan 9

7.8 Yn ystod gwaith ar y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, er mwyn cryfhau'r partneriaethau rhanbarthol a rôl y BPRhau yn y ffordd yr oedd Gweinidogion Cymru ei hangen, daeth yn amlwg y byddai angen diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ogystal â

diweddaru Canllawiau Statudol Rhan 9. Dylid ystyried hyn yng nghyd-destun y penderfyniad a wnaed gan Weinidogion Cymru, mewn ymateb i'r ymgynghoriad Papur Gwyn yn 2021, i beidio â sefydlu BPRhau yn gyrff cyfreithiol corfforedig yn eu rhinwedd eu hunain; ac yng nghyd-destun y cyfyngiadau o ran yr hyn y gellid ei gyflawni drwy ddiweddaru'r Canllawiau Statudol yn unig, fel y nodir ym mharagraff 7.4 uchod (Opsiwn 2). Tir canol yw'r Opsiwn hwn. Mae'n darparu sylfaen ddeddfwriaethol bellach ar gyfer cryfhau rôl BPRhau, gan osgoi'r opsiwn mwy radical a chostus o newid eu statws cyfreithiol (a fyddai wedi golygu newidiadau i'r Ddeddf, yn ogystal â chostau gweithredu sylweddol i sefydlu'r cyrff corfforedig newydd). Dyma brif **fantais** yr Opsiwn hwn.

7.9 Yr hyn sy'n dilyn yw disgrifiad byr o'r darpariaethau allweddol yn y Rheoliadau a'r canlyniadau y bwriedir iddynt eu cael. Diben cyffredinol y Rheoliadau hyn yw galluogi'r BPRhau i weithredu'n fwy effeithiol yn y maes cynllunio a darparu gwasanaethau integredig sy'n esblygu.

**Diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth**

**(i) Amcanion BPRhau**

7.10 Bwriad rheoliad 4 yw ychwanegu at amcanion BPRh, a'u hehangu, er mwyn cryfhau trosolwg y bwrdd o'r trefniadau partneriaeth yn ei ranbarth. Mae'n diwygio amcanion BPRh a nodir yn rheoliad 10 o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth, ac yn ychwanegu atynt.

7.11 Dyma amcanion presennol BPRhau:

- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a gweithredu'r cynllun ardal ar y cyd
- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth
- hyrwyddo cydgomisiynu a sefydlu cronfeydd cyfun lle y bo'n briodol.

7.12 Mae rheoliad 4 yn ychwanegu bod amcanion BPRh hefyd yn cynnwys sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol er mwyn:

- ymateb i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei lunio a'i gyhoeddi o dan adran 144B o'r Ddeddf
- hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector (yn unol â dyletswydd awdurdod lleol o dan adran 16 o'r Ddeddf) wrth ymateb i adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad a gweithredu eu cynlluniau ardal ar y cyd
- hyrwyddo datblygiad trefniadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig.

7.13 Mae adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn cael eu llunio ar sail ranbarthol mewn partneriaeth â'r byrddau iechyd, ac maent yn ategu'r asesiad o anghenion y boblogaeth i ddarparu tystiolaeth y dylid ei hystyried wrth lunio'r cynllun ardal ar y cyd. Drwy ychwanegu amcan bod rhaid i'r BPRhau sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ymateb i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, bydd modd cryfhau rôl y BPRhau o ran sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn atebol am gomisiynu a chynllunio strategol.

7.14 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan adran 16 o'r Ddeddf i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Mae hyn yn dod o fewn y rhestr o swyddogaethau awdurdodau lleol sydd i'w cyflawni drwy drefniadau partneriaeth o dan Atodlen 1 i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth. Drwy ychwanegu trosolwg strategol o arfer y ddyletswydd hon, yng nghyd-destun y trefniadau partneriaeth, at amcanion BPRhau, bydd modd atgyfnerthu dull partneriaeth rhanbarthol o ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol drwy hyrwyddo'r modelau a'r dulliau hyn. Bydd hefyd yn helpu i gefnogi'r fforymau rhanbarthol y mae rhaid i awdurdodau lleol eu sefydlu o dan God Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol).

7.15 Bwriad ychwanegu amcan newydd i hyrwyddo integreiddio yw sicrhau bod y BPRhau yn cael mwy o effaith wrth sbarduno system gofal cymunedol integredig i Gymru. Yn benodol, bydd yn ein galluogi i gynnwys gofyniad yn y Canllawiau Statudol i BPRhau helpu i ddatblygu a gwreiddio'r chwe model integredig cenedlaethol o ofal sy'n sylfaen i weithgarwch prosiectau a ariennir o dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae'r Canllawiau Statudol diwygiedig yn cynnwys diffiniad newydd o integreiddio a sut y cyflawnir integreiddio drwy wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yn gweithio gyda'i gilydd ar dair lefel: macro (lefel strategol sy'n canolbwyntio ar systemau), meso (integreiddio lefel sefydliadol / gwasanaeth), a micro (darparu gofal a chymorth integredig i'r unigolyn); a'r rhyng-gysylltiad rhwng y tair lefel. Mae'r Canllawiau Statudol hefyd yn darparu 'glasbrint' amlinellol ar gyfer system iechyd a gofal integredig, ac yn disgrifio ein bwriad i osod safonau ar gyfer integreiddio sydd i'w defnyddio gan reoleiddwyr wrth arolygu gwasanaethau yn y dyfodol.

7.16 Mae rheoliad 4 hefyd yn ychwanegu bod amcanion BPRh yn cynnwys y canlynol:

- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn hyrwyddo ac yn hwyluso cyfranogiad plant o dan 18 oed mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac a wneir wrth arfer y trefniadau partneriaeth (yn unol â dyletswydd awdurdod lleol o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010)
- gweithio gyda Chorff Llais y Dinesydd i hyrwyddo cyfranogiad pobl sydd angen gofal a chymorth (neu gymorth) a gofalwyr yng ngwaith y trefniadau partneriaeth.

7.17 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r BPRhau wedi canolbwyntio mwy ar ofal a chymorth integredig ar gyfer plant a phobl ifanc, gan roi pwyslais cynyddol ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. O dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae gan awdurdodau lleol eisoes ddyletswydd i wneud y cyfryw drefniadau yr ystyriant sy'n addas i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol a allai effeithio arnynt. Byddai'r rheoliad hwn yn rhoi trosolwg strategol i BPRhau o sut y mae'r cyrff partneriaeth yn cyflawni'r ddyletswydd hon wrth arfer y trefniadau partneriaeth. Er mwyn caniatáu hyn, mae rheoliad 8 (isod) yn ychwanegu adran 12 at Atodlen 1 i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth, sy'n rhestru swyddogaethau awdurdodau lleol sydd i'w harfer mewn partneriaeth.

7.18 Ers mis Ebrill 2023, mae Corff Llais y Dinesydd newydd (a elwir yn Llais) wedi cynrychioli lleisiau a barn pobl Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Llais yn annibynnol ar y llywodraeth, y GIG ac awdurdodau lleol ond mae'n gweithio gyda hwy ac eraill i gefnogi gwelliant parhaus gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae Llais mewn sefyllfa dda i gynorthwyo'r cyrff partneriaeth a'r BPRhau i ymgysylltu'n fwy effeithiol â dinasyddion, gan gynnwys y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr, yng ngwaith y partneriaethau rhanbarthol. Bydd gan Llais hefyd statws sylwedydd annibynnol ar y BPRhau (gweler rheoliad 5 isod).

**(ii) Aelodau BPRhau**

7.19 Mae rheoliad 5 yn ychwanegu at y rhestr o aelodau BPRhau a nodir yn rheoliad 11 o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth, ac mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer aelodau sy'n sylwedyddion annibynnol.

7.20 Mae rheoliad 11 yn cynnwys rhestr o aelodau gofynnol BPRhau. Maent hefyd yn caniatáu i BPRhau gyfethol pobl eraill i fod yn aelodau fel y bo'n briodol yn eu barn hwy, ac yn caniatáu i'r cyrff partneriaeth dalu taliadau cydnabyddiaeth ariannol a lwfansau i aelodau'r bwrdd. Mae rheoliad 5 yn ychwanegu'r canlynol at y rhestr o aelodau gofynnol BPRh:

- cynrychiolydd i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- o leiaf un person i gynrychioli buddiannau darparwyr gofal sylfaenol yn yr ardal a gwmpesir gan y BPRh
- o leiaf un person i gynrychioli'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n cynrychioli'r ardal a gwmpesir gan y BPRh
- o leiaf un person i gynrychioli buddiannau'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

7.21 Mae aelodau BPRhau yn adlewyrchu natur amlsector y bartneriaeth ranbarthol. Yn ogystal â chynrychiolwyr o'r cyrff partneriaeth a chyrff

cyhoeddus eraill, mae BPRhau yn cynnwys aelodau sy'n ddinasyddion cyffredin (defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl) a'r rhai sy'n cynrychioli sefydliadau'r trydydd sector, darparwyr gofal a'r sector tai. Yn y Canllawiau Statudol Rhan 9 diwygiedig, rydym wedi ceisio egluro rôl holl aelodau'r bwrdd, gan eu trefnu ar sail tri safbwynt penodol: partneriaid â phrofiad bywyd, partneriaid darparu gwasanaethau, a phartneriaid comisiynu strategol.

7.22 Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru eisoes wedi ei chyfethol yn aelod o'r rhan fwyaf o BPRhau, felly mae'r diwygiad hwn yn ffurfioli'r aelodaeth hon. Dylai ychwanegu darparwyr gofal sylfaenol at y rhestr helpu i gynyddu cysondeb ac ymgysylltiad rhwng gwaith y BPRh, clystyrau a grwpiau cynllunio clystyrau cyfan. Yn olaf, bydd ychwanegu'r Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol yn helpu i gryfhau presenoldeb y trydydd sector ar BPRhau, sydd eisoes yn gorfod cynnwys o leiaf ddau berson i gynrychioli buddiannau sefydliadau'r trydydd sector yn eu rhanbarth.

7.23 Cafodd y syniad o ychwanegu o leiaf un cynrychiolydd o'r gweithlu at y rhestr o aelodau gofynnol BPRhau ei awgrymu mewn adborth i'r ymgynghoriad yn 2023 gan undebau llafur / cyrff proffesiynol. Nodwyd bod gan ddarparwyr gofal, sefydliadau'r trydydd sector, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl i gyd lais i'w cynrychioli o amgylch y bwrdd BPRh, ond nad oedd gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol gynrychiolaeth o'r fath. Nid oedd yn ymddangos bod hyn yn cyd-fynd â'r model partneriaeth gymdeithasol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru (dylid nodi nad yw BPRhau, gan nad ydynt yn gyrff corfforedig, wedi eu rhwymo gan y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol – ond mae Llywodraeth Cymru yn ceisio annog dull partneriaeth gymdeithasol ehangach na'r hyn a bennir gan y gyfraith). Felly, gwnaed darpariaeth ar gyfer cynrychiolaeth gweithwyr yn y Rheoliadau drafft. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft, daeth yn amlwg bod angen eglurder ynghylch y ffordd orau o sicrhau llais effeithiol i weithwyr a ble fyddai'r lle gorau i'r llais hwnnw o fewn y trefniadau hynny. Roedd angen eglurder hefyd o ran ai cynrychiolydd gweithwyr yn y BPRh ei hun yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni hyn a sut y gallai un aelod gynrychioli'r ystod ehangach o safbwyntiau ymhlith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd pawb yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â gweithwyr gofal a'u sefydliadau cynrychiadol yn y trefniadau partneriaeth. Ar ôl ystyried yn ofalus, penderfynodd Gweinidogion gadw'r gofyniad newydd, ond gan gydnabod bod angen gwneud rhagor o waith ar y disgrifiad o'r rôl a'r broses enwebu / recriwtio ar gyfer yr aelodau hyn. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu a Llais yn cael ei ailffurfio a'i ailgynnull i ystyried y materion hyn, yn ogystal â'r ffyrdd gorau o roi cyfleoedd ystyrlon i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol gyfrannu at lunio darpariaeth gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol ledled eu rhanbarth, gan gynnwys mewnbwn strategol, yn unol â dull partneriaeth gymdeithasol ehangach.

7.24 Yn ogystal, mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i BPRh wahodd cynrychiolydd o Gorff Llais y Dinesydd (Llais) i fod yn aelod sy'n sylwedydd annibynnol o'r bwrdd, ac yn rhoi'r pŵer i BPRh i wahodd personau eraill y mae'n meddwl eu bod yn briodol i fod yn aelodau sy'n sylwedyddion annibynnol o'r bwrdd. Mae'r rheoliad hefyd yn diffinio aelod sy'n sylwedydd annibynnol fel un nad yw'n gymwys i bleidleisio yn nhrafodion y bwrdd ac un na chaniateir iddo gael ei gyfrif yn y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r bwrdd. Gwneir hyn er mwyn diogelu rôl Llais fel llais annibynnol ar gyfer dinasyddion, a chaniatáu i gynrychiolwyr Llais wneud sylwadau a chymryd rhan lawn yn nhrafodaethau'r bwrdd. Mae'r rheoliad yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd BPRhau yn dymuno gwahodd cyrff eraill i fod yn sylwedyddion annibynnol, ar hyn o bryd neu yn y dyfodol. Gan eu bod yn aelodau (er yn aelodau sy'n sylwedyddion annibynnol heb unrhyw hawliau pleidleisio), bydd gan y BPRh y pŵer i dalu taliadau cydnabyddiaeth ariannol a lwfansau i'w haelodau sy'n sylwedyddion annibynnol yn yr un modd ag ar gyfer aelodau eraill.

7.25 Mae rheoliad 6 yn ymdrin â nifer o faterion, gan gynnwys cyrff partneriaeth yn enwebu person cyfrifol i arwain a sicrhau cydweithredu yn y trefniadau partneriaeth; swyddogaethau gweinyddol amrywiol BPRhau sydd â'r nod o gefnogi aelodau yn well; a hunanasesiadau bob dwy flynedd. Mewnosodir y rhain yn y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth fel rheoliadau newydd 11A, B ac C.

### (iii) Personau cyfrifol

7.26 Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff partneriaeth benodi person cyfrifol i hwyluso'r trefniadau partneriaeth a hyrwyddo cydweithredu rhwng y corff partneriaeth, pob un o'r cyrff partneriaeth eraill o fewn y trefniant partneriaeth, a'r BPRh. Mae'n pennu bod rhaid i awdurdod lleol benodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni'r rôl hon; a bod rhaid i fwrdd iechyd benodi'r aelod gweithredol a benodir yn aelod o'r BPRh i gyflawni'r rôl hon. Mae'r rheoliad yn nodi mai rôl y person cyfrifol yw annog cydweithredu a gwaith partneriaeth o fewn y corff partneriaeth; arwain o ran hyrwyddo cyfraniad y corff partneriaeth at gyflawni amcanion y BPRh; ac adrodd yn ôl ar waith y BPRh i gabinet neu fwrdd ei gorff partneriaeth.

7.27 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, ac aelod gweithredol y bwrdd iechyd sy'n aelod o'r BPRh, eisoes yn gwneud hyn, ond diben y rheoliad newydd yw ffurfioli'r trefniadau hyn yn y BPRh.

### (iv) Swyddogaethau gweinyddol BPRhau

7.28 Mae rheoliad 6 hefyd yn cyflwyno gofynion gweinyddol newydd ar gyfer BPRhau mewn perthynas â rolau, recriwtio a chymorth i aelodau. Yn benodol, rhaid i'r BPRh wneud y canlynol:

- cyhoeddi disgrifiadau o rôl a chyfrifoldebau pob categori o aelodau'r bwrdd (fel y'u nodir yn rheoliad 11 o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth)
- sefydlu a chyhoeddi'r weithdrefn ar gyfer recriwtio aelodau o'r bwrdd sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl
- darparu cymorth ac arweiniad i gynorthwyo aelodau o'r bwrdd, yn enwedig yr aelodau hynny sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr di-dâl a sefydliadau'r trydydd sector.

7.29 Mae'r darpariaethau hyn wedi eu hychwanegu at y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn bennaf er mwyn egluro a chefnogi rôl aelodau BPRhau sy'n ddinasyddion, yn enwedig y rhai sydd â phrofiad bywyd fel defnyddwyr gwasanaethau neu ofalwyr di-dâl, ac aelodau sy'n cynrychioli'r trydydd sector. Mae'r Rheoliadau newydd hyn yn darparu bachyn ar gyfer canllawiau estynedig ar sut y dylid recriwtio aelodau BPRhau. Roedd hyn yn un o argymhellion allweddol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu a Llais.

**(v) Hunanasesu**

7.30 Mae rheoliad 6 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i BPRhau ymgymryd â hunanasesiad bob dwy flynedd er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd perfformiad y bwrdd wrth gyflawni ei amcanion. Rhaid cynnal yr hunanasesiad cyntaf erbyn 1 Ebrill 2025, a phob dwy flynedd wedi hynny, a chyflwyno adolygiad rhwng y blynyddoedd hyn (h.y. yn dechrau ar 1 Ebrill 2026 a phob dwy flynedd wedi hynny). Rhaid i'r BPRh gyhoeddi crynodeb o ganlyniadau'r hunanasesiad neu'r adolygiad yn ei adroddiad blynyddol. Mae'r rheoliad hwn yn adlewyrchu gwaith sydd eisoes wedi ei wneud gyda BPRhau i gyd-ddylunio a threialu adnodd hunanasesu, sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd ar draws BPRhau. Bydd cymhwyso'r adnodd hwn yn darparu llinell sylfaen ar gyfer hunanasesiadau statudol yn y dyfodol o 1 Ebrill 2027 ymlaen.

**(vi) Adroddiadau blynyddol**

7.31 Mae rheoliad 7 yn mewnosod darpariaeth newydd yn rheoliad 12 o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth, sy'n ei gwneud yn ofynnol i BPRhau lunio adroddiadau blynyddol. Mae'r ddarpariaeth newydd ym mharagraff (4) yn pennu'r wybodaeth y mae rhaid i BPRhau ei chynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol. Mae'r rheoliad hefyd yn pennu bod rhaid cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar wefannau'r cyrff partneriaeth. Mae'r gofyniad i gyflwyno'r adroddiadau blynyddol hyn i Weinidogion Cymru yn parhau.

7.32 Yr eitemau sydd i'w cynnwys yn yr adroddiadau blynyddol yw:

- disgrifiad o ddiben, rôl, aelodaeth, strwythur gweithredu, a blaenoriaethau allweddol y bwrdd

- gwybodaeth am sut y mae'r trefniadau partneriaeth wedi ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, ac i weithredu'r cynllun ardal ar y cyd
- manylion am sut y defnyddiwyd adnoddau
- gwybodaeth am y ffyrdd y mae'r bwrdd wedi cynorthwyo o ran integreiddio trefniadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- gwybodaeth am sut y mae'r bwrdd wedi cynorthwyo o ran darparu gwasanaethau yn well er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl
- cyfrif o sut y mae'r bwrdd wedi ymgysylltu â dinasyddion (yn enwedig pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gofalwyr, plant a phobl ifanc) yn ei waith
- cyfrif o sut y mae'r bwrdd wedi hyrwyddo ymglymiad dinasyddion yn ei waith, ac asesiad o'r effaith y mae hynny wedi ei chael ar wella canlyniadau llesiant ar gyfer pobl yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol
- gwybodaeth am unrhyw weithgarwch comisiynu ar y cyd a'r defnydd o gronfeydd cyfun yn y trefniadau partneriaeth
- gwybodaeth am sut y mae'r cyrff partneriaeth wedi ymgysylltu â mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector yn y trefniadau partneriaeth
- gwybodaeth am flaenoriaethau'r bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf
- crynodeb o ganlyniadau'r hunanasesiad neu'r adolygiad blynyddol cysylltiedig, ac unrhyw gamau gwella sy'n deillio o hynny.

**(vii) Diwygio Atodlen 1**

7.33 Mae rheoliad 8 yn diwygio Atodlen 1 i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth, drwy fewnosod swyddogaethau awdurdod lleol o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn y rhestr o swyddogaethau sydd i'w cyflawni mewn partneriaeth. Bydd hyn yn ein galluogi i ychwanegu monitro sut y mae awdurdodau lleol yn arfer y swyddogaeth hon (mewn perthynas â'r trefniadau partneriaeth) at y rhestr o amcanion BPRh. (Gweler rheoliad 2 uchod.)

**Diwygio'r Rheoliadau Cynllunio Ardal**

**(viii) Cynlluniau cyflawni blynyddol ac adolygiadau blynyddol**

7.34 Mae rheoliad 9 yn rhoi dau reoliad newydd yn lle rheoliad 7 o'r Rheoliadau Cynllunio Ardal. Mae'r cyntaf o'r rheoliadau hyn (rheoliad 7) yn ymwneud â llunio a chyhoeddi cynllun cyflawni blynyddol. Mae'r ail (rheoliad 8) yn ymwneud â monitro a gwerthuso'r cynllun ardal ar y cyd a'r cynlluniau cyflawni blynyddol.

7.35 Mae adran 14 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd sydd wedi cwblhau asesiad o anghenion y boblogaeth ar y cyd baratoi a chyhoeddi cynllun ardal ar y cyd mewn ymateb. Un o amcanion y BPRh yw sicrhau bod y cyrff partneriaeth

yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth ac i weithredu'r cynllun ardal ar y cyd. Roedd y Rheoliadau Cynllunio Ardal yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi'r cynlluniau cyntaf erbyn 1 Ebrill 2018, a chyhoeddi'r cynlluniau dilynol flwyddyn ar ôl pob asesiad o anghenion y boblogaeth – h.y. bob pum mlynedd. Cyhoeddwyd y cynlluniau ardal diweddaraf yn 2023. Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau Cynllunio Ardal yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff perthnasol gymryd camau priodol i fonitro a gwerthuso'r gwasanaethau a gweithredoedd eraill a nodir yn y cynllun ardal ar y cyd; a bod y cynllun yn cael ei adolygu, a'i ddiwygio os oes angen, os cyhoeddir adendwm i'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn unol â rheoliad 7 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015.

7.36 Byddai'r rheoliad 7 newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd sydd wedi paratoi a chyhoeddi cynllun ardal ar y cyd lunio cynllun cyflawni blynyddol i gefnogi gweithredu'r cynllun ardal ar y cyd yn ystod y deuddeg mis nesaf – h.y. cynllun cyflawni blynyddol ym mhob un o'r pum mlynedd a gwmpesir gan y cynllun ardal ar y cyd. Bydd angen y cynlluniau cyflawni blynyddol cyntaf erbyn 1 Ebrill 2025, a chynlluniau dilynol erbyn 1 Ebrill bob blwyddyn. Wrth lunio'r cynlluniau hyn, bydd y cyrff partneriaeth yn ystyried casgliadau'r adolygiad blynyddol o'r cynllun ardal ar y cyd. Rhaid cyhoeddi'r cynlluniau cyflawni blynyddol ar wefannau'r cyrff partneriaeth, a chyflwyno copi i Weinidogion Cymru.

7.37 Byddai'r rheoliad 8 newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff partneriaeth gymryd camau priodol i fonitro a gwerthuso effaith cyflenwi'r gwasanaethau a'r gweithredoedd yr ymgymerir â hwy yn unol â'r cynllun ardal ar y cyd. Bydd hyn yn cynnwys cynnal adolygiad blynyddol o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r cynllun ardal yn unol â'r gweithredoedd a nodwyd yn y cynllun cyflawni blynyddol. Bydd canlyniadau'r adolygiad blynyddol hwn yn cael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol y BPRh.

7.38 Rhaid i gynlluniau cyflawni blynyddol (ac eithrio'r cynllun cyntaf) ystyried casgliadau'r adolygiad blynyddol o'r cynllun ardal ar y cyd.

**Diwygio'r Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad**

**(ix) Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad**

7.39 Mae rheoliad 10 yn diwygio rheoliad 4 o'r Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad, sy'n pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Bydd y diwygiad yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi'r adroddiadau nesaf ar sefydlogrwydd y farchnad erbyn 1 Medi 2027 (wedi ei newid o 1 Mehefin 2027), ac erbyn 1 Medi bob pum mlynedd wedi hynny.

7.40 Mae'r diwygiad hwn wedi ei ysgogi gan ystyriaethau ymarferol yn ymwneud ag amseru adroddiadau yn y dyfodol. Pan gyhoeddwyd yr adroddiadau cyntaf yn 2022, daeth yn amlwg bod llawer o'r BPRhau wedi cael trafferth cael cymeradwyaeth gorfforaethol gan eu priod gyrff partneriaeth mewn pryd i gyhoeddi'r adroddiadau erbyn 1 Mehefin, oherwydd amseriad yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai'r flwyddyn honno. Roedd hyn yn deillio o'r penderfyniad i ohirio'r etholiadau llywodraeth leol am flwyddyn er mwyn osgoi gwrthdaro ag etholiadau'r Senedd, a oedd eu hunain wedi eu gohirio oherwydd pandemig Covid. Gan fod y cylch pum mlynedd ar gyfer adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn gysylltiedig â'r cylch llywodraeth leol, mae'r mater hwn yn debygol o barhau oni bai bod y dyddiad cyhoeddi yn cael ei newid. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi eu hadroddiadau dilynol 'bob 5 mlynedd ar ôl y dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf ar sefydlogrwydd y farchnad'. Gan y cyhoeddwyd yr adroddiadau cyntaf ar wahanol adegau drwy gydol haf 2022, mae wedi dod yn amlwg na fydd y gofyniad hwn yn bodloni'r bwriad gwreiddiol bod adroddiadau dilynol yn cael eu cyhoeddi union bum mlynedd o'r dyddiad gwreiddiol.

7.41 Dylai'r diwygiad sicrhau bod gan y cyrff partneriaeth ddigon o amser i gael cymeradwyaeth ffurfiol ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol, ac mae'n cryfhau'r gofyniad i gyhoeddi adroddiadau dilynol er mwyn sicrhau cysondeb.

**Yr opsiwn a ffefrir**

7.42 Dewiswyd Opsiwn 3 fel yr opsiwn gorau i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol. Felly, dyma'r opsiwn a baratowyd ar gyfer ymgynghoriad yn haf 2023, ac yna ymgynghoriad pellach ar set ddrafft o Reoliadau yn 2024.

## 8.0 Adolygu ar ôl gweithredu

8.1 Mae ffynonellau amrywiol o wybodaeth ar gael a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru i adolygu a yw'r newidiadau a gyflwynir gan y Rheoliadau diwygiedig yn cael yr effaith a ddymunir, sef cryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol a chynyddu effeithiolrwydd y BPRhau.

8.2 Bydd y gofynion newydd i BPRhau ymgymryd â hunanasesiad bob dwy flynedd (ac adolygiad blynyddol hanner ffordd rhwng y blynyddoedd hyn) yn rhoi gwybodaeth iddynt am sut y maent yn bodloni'r gofynion yn y Rheoliadau. Rhaid cynnwys crynodeb o'r hunanasesiad neu'r adolygiad hwn yn eu hadroddiadau blynyddol.

8.3 Fel rhan o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol y mae BPRhau yn ei rheoli, sefydlwyd Cymunedau Ymarfer mewn rhai meysydd allweddol o ran integreiddio, comisiynu a thrawsnewid. Mae'r rhain wedi eu

cydweddu â datblygu'r chwe Model Gofal Integredig. Mae'r Cymunedau Ymarfer wedi dod â grwpiau o ymarferwyr at ei gilydd i hyrwyddo trafodaeth gynhyrchiol ac annog datrysiadau cydweithredol i oresgyn heriau cyffredin yn ogystal â gwerthuso'r hyn sy'n gweithio'n dda. Bydd y Cymunedau Ymarfer yn parhau i nodi arferion da o ranbarthau a sut y mae BPRhau yn datblygu integreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

8.4 O ran ymgysylltu a llais, bydd yn ofynnol i'r BPRhau gynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol gyfrif o sut y maent wedi ymgysylltu â dinasyddion (yn enwedig pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr di-dâl, gan gynnwys plant a phobl ifanc) yn eu gwaith, sut y mae'r bartneriaeth ranbarthol wedi hyrwyddo cydgynhyrchu, a'r gwahaniaeth y mae hyn wedi ei wneud o ran canlyniadau llesiant ar gyfer dinasyddion. Ar lefel awdurdod lleol, dylid cynnwys gwybodaeth am ddulliau ymgysylltu a chydgynhyrchu yn adroddiadau blynyddol y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd yr adroddiadau ar yr asesiadau o anghenion y boblogaeth, yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a'r cynlluniau ardal ar y cyd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut yr ymgysylltwyd â dinasyddion wrth lunio'r rhain.

8.6 Yn unol â'r arferion da sydd wedi ennill eu plwyf o ran is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Rheoliadau ymhen tair blynedd (erbyn mis Rhagfyr 2027).